# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (250)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 8 Mawrth 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 12 cwestiwn. Ni ofynnwyd cwestiwn 5.

………………………

### 14.13
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.29
### Eitem 3: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyrff Cyhoeddus

### NDM4671 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyrff Cyhoeddus, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 28 Hydref 2010, a'r rheini'n ddarpariaethau sy'n ymwneud â chyrff a swyddi cyhoeddus penodol, i'r graddau y mae'r cyrff a'r swydd-ddeiliaid hynny yn arfer swyddogaethau yng Nghymru a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

### 14.45
### Eitem 4: Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Refferendwm: Y camau nesaf

………………………

### 15.05
### Eitem 5: Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb i'r adolygiad i waed wedi'i heintio

………………………

**15.41**
**Eitem 6: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Blant: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**

………………………

## 16.33
## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011

### NDM4676 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**16.33**
**Eitem 8: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011**

### NDM4677 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 5 | 9 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

## 16.52
## Eitem 9: Dadl ar adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar gyfer 2009-10

### NDM4679 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar gyfer 2009-10; ac

2.Yn croesawu'r cyfraniad a wnaed gan yr adroddiad blynyddol i'r sylfaen dystiolaeth ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn adroddiad Estyn fel blaenoriaeth genedlaethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd asesiadau Estyn yn y dyfodol yn cael eu gwella drwy fuddsoddi mewn premiwm disgybl i wella cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd asesiadau Estyn yn y dyfodol yn cael eu gwella drwy fuddsoddi'n iawn i gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i athrawon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4679 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar gyfer 2009-10; ac

2.Yn croesawu'r cyfraniad a wnaed gan yr adroddiad blynyddol i'r sylfaen dystiolaeth ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

……………………….

**17.42**
**Eitem 10: Dadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol**

**NDM4678 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu llwyddiant blwyddyn gyntaf y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wrth gefnogi datblygiad rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth ganfyddiadau diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch rheoli prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru.

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gael yn:

http://www.wao.gov.uk/cymraeg/newyddion_3866.asp

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r manteision i Gymru yn sgil y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd a Llundain.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes digon o gyfeiriadau at hedfan yn y cynllun.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 37 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i dderbyn cynnig Llywodraeth y DU i gydweithio i ddatblygu achos busnes llawn dros drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn ystod y cyfnod rheoli buddsoddi mewn rheilffyrdd nesaf a fydd yn dechrau yn 2014 ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr achos dros bennu trenau trydanol addas ar gyfer y llwybrau hyn pan fydd masnachfraint Cymru a'r Gororau yn cael ei hailosod yn 2018.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w chymhorthdal i'r gwasanaeth hedfan rhwng Caerdydd ac Ynys Môn ar y cyfle cyntaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 10 | 31 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4678**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu llwyddiant blwyddyn gyntaf y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wrth gefnogi datblygiad rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy.

Yn croesawu'r manteision i Gymru yn sgil y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd a Llundain.

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i dderbyn cynnig Llywodraeth y DU i gydweithio i ddatblygu achos busnes llawn dros drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn ystod y cyfnod rheoli buddsoddi mewn rheilffyrdd nesaf a fydd yn dechrau yn 2014 ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr

achos dros bennu trenau trydanol addas ar gyfer y llwybrau hyn pan fydd masnachfraint Cymru a'r Gororau yn cael ei hailosod yn 2018.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 5 | 10 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

………………………

**18.28**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.32.

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 9 Mawrth 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**